

CENEDLAETHOLDEB : GWEITHGAREDDAU

Cwestiynau byr (A01, A02)

Ceisiwch lunio atebion byr ar gyfer y cwestiynau isod:

Amlinellwch y prif wahaniaethau rhwng dehongliadau Ernest Gellner, Eric Hobsbawm ac Anthony D. Smith ynglŷn â gwreiddiau cenedloedd a chenedlaetholdeb.

Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng y ffurfiau rhyddfrydol a cheidwadol ar genedlaetholdeb?

Pa fath o ffactorau berodd i genedlaetholwyr gwrthdrefedigaethol dynnu yn helaeth ar syniadau sosialaidd?

Pam fod diffinio beth yw cenedl wedi profi'n dasg mor anodd dros y blynyddoedd?

Beth yw hanfod y syniad o huanbenderfyniaeth cenedlaethol, a pha fath o amodau sydd angen eu bodloni er mwyn gwireddu'r hawl honno?

Eglurwch beth yw'r prif wahaniaethau rhwng cenedlaetholdeb sifig a chenedlaetholdeb ethnig.

Wrth baratoi eich atebion meddyliwch yn ofalus ynglŷn a'r pwyntiau canlynol:

- i) **Gwybodaeth:** Er mwyn dangos eich bod yn meddu ar wybodaeth eang a manwl meddyliwch yn ofalus am y gwahanol fathau o gysyniadau, egwyddorion, meddylwyr sydd angen eu trafod er mwyn ateb y cwestiwn yn llawn.
- ii) **Eglurder:** Er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno eich gwybodaeth mewn modd clir ac eglur, meddyliwch yn ofalus am sut i strwythuro eich ateb. Meddyliwch ym mha drefn y dylid gosod eich pwyntiau er mwyn sicrhau bod eich ateb yn llifo'n esmwyth.
- iii) **Perthnasedd:** Er mwyn sicrhau bod eich ateb yn trafod pwyntiau perthnasol sicrhewch eich bod yn deall beth yn union mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei wneud ac yna sicrhewch eich bod ond yn cynnwys deunydd perthnasol i'r cwestiwn fel rhan o'r ateb.